

**Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005**

Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

**Ysgol Gymraeg Aberystwyth
Plascrug Avenue
Aberystwyth
SY23 1HL**

Rhif yr Ysgol: 6672299

Dyddiad yr Arolygiad: 09/02/09

gan

**Gwilym Trebor Roberts
78291**

Dyddiad Cyhoeddi: 15/04/09

O dan rif contract Estyn: 1111008

® Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2009: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategoriâu penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Gymraeg Aberystwyth fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Gymraeg Aberystwyth rhwng 09/02/09 a 11/02/09, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Gwilym Trebor Roberts. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad byr.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALIau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cyd-destun	1
Crynodeb	2
Argymhellion	7
Safonau	8
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	8
Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant	11
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	11
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	13
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	15
Arweinyddiaeth a rheolaeth	17
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	17
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	18
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	19
Ymateb yr ysgol i'r arolygiad	20
Atodiadau	21
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	21
2 Data a dangosyddion ysgol	22
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	23
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	25
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	26

Cyd-destun

Natur y darparwr

1. Mae Ysgol Gymraeg Aberystwyth yn ysgol Gymraeg ddynodedig a leolir ar gyrion tref Aberystwyth. Gwasanaetha'r dref a'r ardal gyfagos. Daw tua chwarter y disgyblion o ardaloedd cymharol ffyniannus a'r gweddill o ardaloedd sydd heb fod yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Disgrifia'r ysgol natur y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol fel rhai heb fod yn freintiedig nac yn ddifreintiedig .
2. Ym mis Ionawr, 2009 roedd 359 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol yn cynnwys 45 o blant oed meithrin rhan amser ac 11 o blant oed meithrin llawn amser. Cychwynna'r disgyblion yn rhan amser yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn llawn amser yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Derbynnir plant o oed derbyn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.
3. Daw tua 48% ohonynt o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith ac mae'r holl ddisgyblion yn dod i siarad Cymraeg i safon sy'n cyfateb i iaith gyntaf cyn cyrraedd diwedd cyfnod allweddol 1.
4. Mae gan 4.6% o'r disgyblion hawl i gael prydau bwyd ysgol yn rhad ac am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r cyfartaledd sirol a chenedlaethol.
5. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion o ystod gallu llawn. Mae tua 23% o'r disgyblion yn rhai ac anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys deg sy'n destun datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig.
6. Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn 2001. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Chwefror, 2003. Y tro hwn derbyniodd yr ysgol arolygiad byr.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

- Datblygu'r Cyfnod Sylfaen er mwyn sicrhau'r cyfleoedd gorau i'r disgyblion i ddatblygu fel dysgwyr effeithiol mewn ethos Gymreig.
- Datblygu gallu'r disgyblion i fod yn ddisgwyr annibynnol drwy ddefnyddio sgiliau cyfathrebu, meddwl, TGCh a rhif yn hyderus.
- Diweddarau cynlluniau gwaith yn sgil Cwricwlwm 2008 a'r Fframwaith Sgiliau.
- Datblygu cyfleoedd i ddisgyblion i fod yn rhan o "fedrau menter" ac i gynnal gweithgareddau economaidd (busnes).
- Adolygu polisiau yn gyffredinol.
- Datblygu strategaethau i gefnogi disgyblion sy'n profi anawsterau wrth ddatblygu iaith a lleferydd.
- Datblygu rôl yr uwch dim rheoli.
- Cynyddu dealltwriaeth llywodraethwyr newydd o'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol a'u rôl hwy wrth gynorthwyo'r pennaeth i reoli'r ysgol.
- Datblygu rôl y Tîm Rheoli Canol i hunan arfarnu dysgu ac addysgu ysgol gyfan.
- Datblygu rôl gweithwyr cynorthwyol newydd y Cyfnod Sylfaen.

Crynodeb

7. Mae hon yn ysgol dda gyda llawer o nodweddion rhagorol. Mae yma ymdeimlad cryf o Gymreictod a pharch at eraill, lle mae pawb yn gwneud eu gorau glas. Mae'r pwyslais a roddir ar ddatblygu'r disgyblion fel dysgwyr gweithredol yn cyfrannu'n sylweddol at y safonau a gyflawnir ganddynt.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol	Gradd arolygu
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	1
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	1
3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	1
4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	1
5 Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	1
6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	1
7 Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	1

8. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion, ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at y Cyfnod Sylfaen.
9. Mae'r disgyblion trwy'r ysgol yn cyflawni safonau rhagorol o ran eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Mae bron bob un o'r disgyblion, gan gynnwys rhai sydd ag ADY, yn cyrraedd y targedau heriol a osodir ar eu cyfer.
10. Mae safonau a chynnydd y plant dan bump oed a'r disgyblion ar draws yr ysgol ym medrau allweddol siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn dda gyda nodweddion rhagorol. Mae safonau disgyblion cyfnod allweddol 2 yn eu medrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu Saesneg yn dda gyda nodweddion rhagorol.
11. Mae'r disgyblion ar draws yr ysgol yn cyflawni safonau da gyda nodweddion rhagorol yn eu medrau mathemategol ar draws y cwricwlwm.
12. Mae medrau TGCh y disgyblion yn dda ar draws yr ysgol.

13. Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn mewn medrau dwyieithog. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'r Gymraeg a'r Saesneg yn eu dysgu.
14. Wrth gymharu ag ysgolion tebyg o ran y ganran sy'n derbyn cinio am ddim, dros y tair blynedd diwethaf, roedd canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 a 2 yn gosod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion, ac yng nghyfnod allweddol 2 yn 2006, yn y 25% uchaf. Roedd y canlyniadau yn gyson uwch na'r canlyniadau sirol a chenedlaethol.
15. Mae'r disgyblion trwy'r ysgol yn dysgu gwybodaeth a medrau newydd yn gyflym ac yn effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth ragorol o'r hyn y maent yn ei wneud mewn gwahanol wersi a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Mae'r disgyblion yn dangos diddordeb byw yn eu gwaith, yn gweithio'n frwdfrydig ac yn gynhyrchiol iawn yn eu gwersi.
16. Mae ymddygiad ac ymagweddu'r disgyblion yn dda iawn ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu. Maent yn dangos parch a chwarteisi tuag at ei gilydd ac oedolion.
17. Roedd cyfartaledd presenoldeb am y tri thymor llawn cyn yr arolygiad ychydig yn uwch na 95%, sy'n dda. Daw'r disgyblion i'r ysgol yn brydlon yn y boreau.
18. Mae nodweddion rhagorol i'r cynnydd a wna'r disgyblion yn eu medrau personol, cymdeithasol a moesol a diwylliannol. Maent yn gwneud penderfyniadau moesol trwy resymu'n aeddfed gan arddangos ymwybyddiaeth gadarn o werthoedd megis gonestrwydd tegwch a pharch.
19. Mae nodweddion rhagorol i ddatblygiad medrau dysgu'r disgyblion. Mae'r disgyblion trwy'r ysgol yn llwyddo'n rhagorol i gynnal tasgau yn annibynnol, gan feddwl, cwstiyntu, canolbwyntio a dyfalbarhau wrth gymhwyso'u gwybodaeth ar gyfer datrys problemau. Maent yn cydweithio gyda'i gilydd yn hynod bwrpasol gan wrando ar gyfraniadau ei gilydd cyn gwneud penderfyniadau.
20. Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth ragorol o faterion cyfle cyfartal a pharch at amrywiaeth mewn cymdeithas.
21. Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y disgyblion o fyd gwaith ac o agweddau cymunedol yn dda iawn.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Graddau ar gyfer addysgu

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
42%	58%	0%	0%	0%

22. Mae ansawdd yr addysgu yn y gwersi yn rhagori ar yr ystadegau ar gyfer Cymru-gyfan am 2007-2008, fel y cyhoeddwyd hwy yn Adroddiad Blynyddol PAEM, sef bod ansawdd yr addysgu yn radd 2 neu'n uwch mewn 83% o wersi a gradd 1 mewn 16% o wersi.

23. Mae perthynas dda iawn rhwng yr athrawon, y cymorthyddion a'r disgyblion, sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol iawn.
24. Mae gan yr athrawon wybodaeth dda iawn o'r pynciau a gofynion y cwricwlwm ac o'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu plant dan bump oed. Caiff pawb eu trin yn gyfartal, beth bynnag fo'u rhyw, hil a gallu.
25. Mae nodweddion rhagorol yr addysgu'n cynnwys: holi treiddgar sy'n annog y disgyblion i gwestiynu ac i ddyfnhau eu dealltwriaeth; cyflwyniadau bywiog a chyffrous iawn sy'n ennyn diddordeb a thanio dychymyg y disgyblion; gweithgareddau ymarferol o ansawdd rhagorol sy'n dyfnhau dealltwriaeth disgyblion; disgwyliadau uchel iawn o ran cyflawniadau disgyblion a thasgau heriol yn cael eu rhoi sy'n annog disgyblion i wneud dewisiadau a datrys problemau drostynt eu hunain mewn modd sy'n hyrwyddo dysgu annibynnol ar ei orau.
26. Mae nodweddion da'r addysgu yn cynnwys: gwersi wedi eu cynllunio'n drylwyr gyda nodau clir sy'n cyfateb i anghenion y gwahanol garfannau o fewn y dosbarth; defnydd effeithiol o adnoddau gan gynnwys y bwrdd gwyn rhyngweithiol; cyflymder addas i bob rhan o'r wers a defnydd o amrywiol strategaethau addysgu gan gynnwys addysgu dosbarth cyfan, gweithgareddau grŵp ac unigol fel bo'n briodol; defnydd effeithiol o ganmoliaeth a chlod a chreu awyrgylch waith bwrpasol; sicrhau cyfle cyfartal trwy wahaniaethu effeithiol, a datblygu medrau dwyieithog y disgyblion yn fwriadus.
27. Mae ansawdd yr asesu a'r cofnodi'n dda gyda nodweddion rhagorol. Mae athrawon yn gweithredu trefn deg, gyson a chywir o asesu cyflawniadau'r disgyblion yn holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.
28. Meithrinir gallu'r disgyblion i asesu eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu cyfoedion yn gyson. Mae hyn yn nodwedd ragorol.
29. Er bod gwaith ysgrifenedig y disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd a sylwadau adeiladol yn cael eu cynnig ar rai ymdrechion, nid yw'r arfer yma yn gyson o fewn cyfnod allweddol 2.
30. Caiff rhieni gyfle yn dymhorol i drafod cynnydd eu plant ac mae ansawdd yr adroddiadau blynyddol i rieni'n dda iawn. Gwerthfawrogir sylwadau'r pennaeth gan y rhieni.
31. Mae ansawdd ac amrywiaeth y profiadau dysgu a ddarperir i'r disgyblion yn rhagorol. Cynigir cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cwrdd â'r holl ofynion statudol.
32. Mae'r cynlluniau diwygiedig ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 yn cynnig canllawiau clir i'r athrawon. Er bod elfen ragorol i'r ddarpariaeth yma yn gyffredinol, da yw'r cyfleoedd yng nghyfnod allweddol 2 ar gyfer cyflwyno medrau TGCh ar draws y cwricwlwm. Anwastad yw'r cyfleoedd ar gyfer datblygu medrau mathemateg ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2.

33. Cyfoethogir y profiadau a gyflwynir i'r disgyblion yn rhagorol trwy gyfraniadau ymwelwyr a'r amrywiol ymweliadau addysgol a phrofiadau tu allan i ffiniau'r ysgol. Gwneir defnydd arbennig o adnoddau lleol a chynigir arlwy o weithgareddau yn ystod yr awr ginio ac ar ôl ysgol gan gynnwys Clwb yr Urdd.
34. Mae'r cyfnodau addoli ar y cyd yn cynnig cyfleoedd rhagorol i ddisgyblion fyfyrion ar elfennau ysbrydol a phersonol a hyrwyddir datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol iawn.
35. Mae partneriaeth dda iawn yn bodoli gyda'r rhieni. Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn weithgar a brwdfrydig iawn. Mae gan yr ysgol gysylltiadau niferus gyda'r gymuned leol sy'n cyfoethogi'r ddarpariaeth gwricwlaidd.
36. Meithrinir cysylltiadau da iawn ag ysgolion eraill. Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo'r disgyblion i'r ddwy ysgol uwchradd leol yn dda iawn.
37. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dinasyddiaeth fyd eang yn rhagorol. Datblygir ymwybyddiaeth o fyd gwaith yr ardal yn dda a manteisir ar gysylltiadau ymarferol gyda busnesau a gwasanaethau cyhoeddus lleol. Hyrwyddir mentergarwch yn dda.
38. Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i'r disgyblion yn rhagorol. Mae'r disgyblion yn hapus iawn yn yr ysgol. Maent yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan yr oedolion oll.
39. Mae gan y rhieni hyder amlwg yn y gofal a'r cyfarwyddyd a gaiff eu plant ac yn y ffordd y mae'r ysgol yn ymateb yn syth ac yn llawn i unrhyw faterion a godir.
40. Mae'r ysgol yn sicrhau datblygiad iachus a ffitrwydd yn dda.
41. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn rhagorol. Mae gan yr ysgol drefniadau manwl ac effeithiol ar gyfer darganfod yn fuan y disgyblion sydd ag ADY. Mae'r cydgysylltydd yn cadw cofnodion trefnus a chyfredol o'r gwaith. Cyflawna'r aelod o'r corff llywodraethu sydd â chyfrifoldeb am ADY ei dyletswyddau yn gydwybodol.
42. Darperir cynhaliadau effeithiol iawn gan sicrhau bod y disgyblion yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm ac i holl weithgareddau eraill yr ysgol.
43. Rhoddir sylw rhagorol i sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl yn yr ysgol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

44. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir, a thrwy bartneriaeth gadarn gyda'r tîm rheoli a'r llywodraethwyr, llwyddir i osod cyfeiriad strategol pwrpasol i ddatblygiad yr ysgol. Cyfeirir yn ddyddiol at 'Gymreictod, Parchu Eraill a Gwneud Ein Gorau Glas' ac adlewyrchir hyn o fewn gwaith ac ymroddiad rhagorol y disgyblion.

45. Mae'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn arbennig o dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o'u cyfrifoldebau.
46. Mae'r trefniadau ar gyfer hunan arfarnu yn gynhwysfawr ac mae gan uwch reolwyr yr ysgol wybodaeth drylwyr am berfformiad yr ysgol. Gwnânt ddefnydd effeithiol a manwl o'r wybodaeth i gynllunio gwelliannau pellach.
47. Mae'r pennaeth a'r athrawon yn cyfrannu'n llawn at y broses hunan arfarnu ac yn cynhyrchu adroddiadau i'w trafod ac i'w cyflwyno i'r llywodraethwyr. Mae'r goreuon o'r adroddiadau hyn yn fanwl a threiddgar ond mae lleiafrif yn rhy ddisgrifiadol ac nid ydynt yn canolbwyntio yn ddigonol ar ansawdd cyflawniad a pherfformiad y disgyblion.
48. Caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i fynegi barn. Mae cyfraniad y Cyngor Ysgol i weithdrefnau hunan arfarnu'r ysgol yn nodwedd ragorol. Caiff barn rhieni unigol ei ganfod trwy holiaduron.
49. Mae'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu ym mhob un o'r saith cwestiwn allweddol.
50. Mae'r Cynllun Datblygu Ysgol yn nodi prif flaenoriaethau'r ysgol, yn dangos camau gweithredu sy'n debygol o arwain at welliant, ac yn rhoi manylion am yr adnoddau ariannol sydd ar gael i gefnogi'r blaenoriaethau.
51. Gwnaed cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r materion allweddol a adnabuwyd yn yr arolygiad diwethaf yn 2003. Mae canlyniadau diwedd cyfnodau allweddol, ynghyd â chanfyddiadau arsylwi gwersi y tro hwn yn dangos bod y safonau uchel yn cael eu cynnal. Mae safonau medrau TGCh wedi codi i fod yn dda y tro hwn. Mae'r wybodaeth asesu yn cael dylanwad cadarnhaol ar y ddarpariaeth ac mae trefn ar gyfer hunan asesu yn datblygu'n dda. Mae cytundebau cartref ysgol yn eu lle.
52. Mae gan yr athrawon ystod eang o gymwysterau, arbenigeddau a phrofiad sy'n eu galluogi i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm yr ysgol. Mae'r cymorthyddion cyfnod sylfaen a'r cymorthyddion cynnal dysgu yn gweithio'n agos a chydwybodol gyda'r athrawon. Maent yn cyfrannu'n rhagorol i'r addysgu.
53. Mae'r cyflenwad adnoddau dysgu'n dda ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Mae'r adeiladau a thir yr ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda iawn ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r neuadd yn ddigonol ar gyfer y nifer o ddisgyblion .
54. Fodd bynnag mae trafndiaeth yn drwm ar y ffordd wrth yr ysgol pan fo disgyblion yn cyrraedd ar ddechrau'r diwrnod ysgol ac wrth iddynt adael ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Mae'r Llywodraethwyr yn trafod y mater yn rheolaidd ac mae'r Cyngor Sir yn ymchwilio i'r mater.
55. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn cydweithio'n rhagorol er mwyn sicrhau bod cyllideb yr ysgol yn cael ei ddefnyddio i roi'r addysg orau bosibl i'r disgyblion. Gwnânt ddefnydd rhagorol o gymorth ariannol ychwanegol gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon a chan gwmnïau a mudiadau lleol. Maent yn cynllunio a monitro'r gwariant yn ofalus. Mae'r ysgol yn cynnig gwerth rhagorol am arian.

Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

- A1 Gynllunio'n fwy bwriadus y cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau mathemateg dydd i ddydd ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2. *
- A2 Raeadru'r arferion gorau mewn perthynas ag ymateb i waith ysgrifenedig y disgyblion yn CA2. *
- A3 Gysoni ansawdd adroddiadau hunan arfarnu pynciol gyda'r arferion gorau sydd eisoes yn bodoli yn yr ysgol, fel eu bod yn mynegi barnau am safonau cyflawniad ac yn adnabod y materion sydd angen eu gwella. *
- A4 Barhau i gydweithio gyda'r awdurdod lleol i sicrhau symudiad rhwydd i drafnidiaeth wrth fynedfa'r ysgol ar adegau prysur o'r dydd.

* Mae'r mater hwn eisoes wedi ei nodi yn y CDY

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddsbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

56. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd a barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
57. Mae tystiolaeth yr arolygiad yn dangos bod y disgyblion yn llwyddo'n dda gyda nodweddion rhagorol wrth wneud cynnydd yn eu dysgu ac maent hefyd llwyddo'n dda gyda nodweddion rhagorol i gyrraedd y nodau dysgu ar eu cyfer yn erbyn eu potensial. Gwnaeth pob disgybl, yn ôl asesiadau'r athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2008, gynnydd o ddwy lefel neu fwy, o'u canlyniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 1.
58. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion, ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at y Cyfnod Sylfaen.
59. Mae'r disgyblion trwy'r ysgol yn cyflawni safonau rhagorol o ran eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Mae bron bob un o'r disgyblion, gan gynnwys rhai sydd ag ADY, yn cyrraedd y targedau heriol a osodir ar eu cyfer.
60. Mae safonau a chynnydd y plant dan bump oed a'r disgyblion ar draws yr ysgol ym medrau allweddol siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn dda gyda nodweddion rhagorol. Maent yn gwylio a gwrando'n astud ar gyflwyniadau a chwestiynau oedolion a chyd-ddisgyblion. Maent yn ymateb yn hyderus, yn eglur ac yn gynyddol estynedig. Gwnânt ddefnydd da iawn o'u medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg wrth drin llyfrau, cywain gwybodaeth a chofnodi mewn amrywiaeth o ffurfiau ac arddulliau ar draws y cwricwlwm.
61. Mae safonau disgyblion cyfnod allweddol 2 yn eu medrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu Saesneg yn dda gyda nodweddion rhagorol. Yn eu gwersi cyfrwng Saesneg maent yn trafod eu gwaith yn hyderus, yn darllen yn rhugl gan ddangos dealltwriaeth lwyr o'r testun, ac yn cofnodi'n drefnus a chywir mewn amrediad o wahanol ffurfiau.
62. Mae'r disgyblion ar draws yr ysgol yn cyflawni safonau da gyda nodweddion rhagorol yn eu medrau mathemategol ar draws y cwricwlwm. Yng nghyfnod allweddol 1 maent yn ymdopi'n fedrus â'r galwadau mathemategol, megis cyfrif, mesur, dosbarthu, trefnu a chymharu sy'n codi o ddydd i ddydd yn eu gweithgareddau trawsgwricwlaidd. Yng nghyfnod allweddol 2 maent yn trin data mewn amrywiol gyd-destunau ac erbyn brig yr ysgol yn gwneud penderfyniadau ystyrlon ynglŷn â pha fathau o graffiau sy'n addas i wahanol bwrpasau.
63. Mae medrau TGCh y disgyblion yn dda ar draws yr ysgol. Yng nghyfnod allweddol 1 mae'r disgyblion yn defnyddio cyfrifiadur, bwrdd gwyn rhyngweithiol ac offer TGCh arall yn hyderus i atgyfnerthu eu dysgu, ac i greu a chofnodi eu gwaith mewn nifer o wahanol gyd-destunau.

64. Erbyn cyfnod allweddol 2 mae'r disgyblion yn defnyddio offer a meddalwedd TGCh yn fedrus i ddod o hyd i wybodaeth, ei ddadansoddi, i ymchwilio i'w syniadau a'u datblygu, ac i brosesu, cyflwyno a chyfathrebu gwybodaeth yn effeithiol.
65. Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn mewn medrau dwyieithog. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 maent yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'r Gymraeg a'r Saesneg yn eu dysgu ac yn symud yn rhwydd o'r un iaith i'r llall, yn ôl yr angen.
66. Mae nodweddion rhagorol i'r safonau a gyflawnir a'r cynnydd a wna'r disgyblion yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r Cwricwlwm Cymreig. Erbyn brig yr ysgol, mae ganddynt wybodaeth eang am eu milltir sgwâr, a Chymru'n ehangach, gan gynnwys ei hanes, nodweddion daearyddol, arlunwyr, cerddorion ac awduron.
67. Mae'r disgyblion trwy'r ysgol yn cyflawni safonau da gyda nodweddion rhagorol mewn medrau creadigol. Gwnânt ddefnydd hynod effeithiol o'u dychymyg a'u creadigedd mewn gwersi celf, wrth greu storïau a cherddi Cymraeg a Saesneg ac wrth gyfathrebu syniadau a chyflwyno a chofnodi gwaith mewn gwahanol feysydd.
68. Yng nghyfnod allweddol 1, yn 2008, yn ôl asesiadau'r athrawon, cyrhaeddodd bron i 98% o'r disgyblion lefel 2 neu uwch ym mhynciau craidd y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae'r canlyniadau yn sylweddol uwch na'r rhai sirol a chenedlaethol.
69. Wrth gymharu ag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n derbyn cinio am ddim, dros y tair blynedd ddiwethaf, roedd canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn y 50% uchaf o ysgolion ar gyfer y dangosydd pynciau craidd, sef y ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefel 2 neu uwch mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth.
70. Nid oes patrwm o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched.
71. Yng nghyfnod allweddol 2, yn 2008, yn ôl asesiadau'r athrawon, cyrhaeddodd 91% o'r disgyblion lefel 4 neu uwch yn y Gymraeg ac mewn mathemateg, 96% mewn gwyddoniaeth a 93% mewn Saesneg. Mae'r canlyniadau yn sylweddol uwch na rhai Cymru a sir Ceredigion.
72. Wrth gymharu ag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n derbyn cinio am ddim, dros y tair blynedd ddiwethaf, roedd canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn gyson yn y 50% uchaf, ac mewn un flwyddyn yn y 25% uchaf o ysgolion ar gyfer y dangosydd pynciau craidd, sef y ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg a mathemateg a gwyddoniaeth.
73. Nid oes patrwm o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched.
74. Mae'r disgyblion trwy'r ysgol yn dysgu gwybodaeth a medrau newydd yn gyflym ac yn effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth ragorol o'r hyn y maent yn ei wneud mewn gwahanol wersi a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

75. Mae'r disgyblion yn dangos diddordeb byw yn eu gwaith, ac yn gweithio'n frwdfrydig ac yn gynhyrchiol iawn yn eu gwersi.
76. Mae ymddygiad ac ymagweddu'r disgyblion yn dda iawn ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu. Maent yn dangos parch a chwarteisi tuag at ei gilydd ac oedolion.
77. Roedd cyfartaledd presenoldeb am y tri thymor llawn cyn yr arolygiad ychydig yn uwch na 95%, sy'n dda. Daw'r disgyblion i'r ysgol yn brydlon yn y boreau.
78. Mae nodweddion rhagorol i'r cynnydd a wna'r disgyblion yn eu medrau personol, cymdeithasol a moesol. Maent yn gwneud penderfyniadau moesol trwy resymu'n aeddfed gan arddangos ymwybyddiaeth gadarn o werthoedd megis gonestrwydd, tegwch a pharch.
79. Mae nodweddion rhagorol i ddatblygiad medrau dysgu'r disgyblion. Mae'r disgyblion trwy'r ysgol yn llwyddo'n rhagorol i gynnal tasgau yn annibynnol, gan feddwl, cwestiynu, canolbwyntio a dyfalbarhau wrth gymhwyso'u gwybodaeth ar gyfer datrys problemau. Maent yn cydweithio gyda'i gilydd yn hynod bwrpasol gan wrando ar gyfraniadau ei gilydd cyn gwneud penderfyniadau.
80. Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth ragorol o faterion cyfle cyfartal a pharch at amrywiaeth mewn cymdeithas.
81. Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y disgyblion o fyd gwaith ac o agweddau cymunedol yn dda iawn.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

82. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r farn a fynegwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

83. Barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
42%	58%	0%	0%	0%

84. Mae ansawdd yr addysgu yn y gwersi yn rhagori ar yr ystadegau ar gyfer Cymru-gyfan am 2007-2008, fel y cyhoeddwyd hwy yn Adroddiad Blynyddol PAEM, sef bod ansawdd yr addysgu yn radd 1 a 2 mewn 83% o wersi a gradd 1 mewn 16% o wersi.

85. Mae perthynas dda iawn rhwng yr athrawon, y cymorthyddion a'r disgyblion sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol iawn.

86. Mae gan yr athrawon wybodaeth dda iawn o'r pynciau a gofynion y cwricwlwm ac o'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu plant dan bump oed. Caiff pawb eu trin yn gyfartal, beth bynnag fo'u rhyw, hil a gallu.

87. Mae nodweddion rhagorol yr addysgu'n cynnwys:

- holi treiddgar sy'n annog y disgyblion i gwestiynu ac i ddyfnhau eu dealltwriaeth;
- cyflwyniadau bywiog a chyffrous iawn sy'n ennyn diddordeb a thanio dychymyg y disgyblion;
- gweithgareddau ymarferol o ansawdd rhagorol sy'n dyfnhau dealltwriaeth disgyblion;
- tasgau heriol yn cael eu rhoi sy'n annog disgyblion i wneud dewisiadau a datrys problemau drostynt eu hunain ac sy'n hyrwyddo dysgu annibynnol ar ei orau.

88. Mae nodweddion da'r addysgu yn cynnwys:

- gwersi wedi eu cynllunio'n drylwyr gyda nodau clir sy'n cyfateb i anghenion y gwahanol garfannau o fewn y dosbarth;
- defnydd effeithiol o adnoddau gan gynnwys y bwrdd gwyn rhyngweithiol;
- cyflymder addas i bob rhan o'r wers a defnydd o amrywiol strategaethau addysgu gan gynnwys addysgu dosbarth cyfan, gweithgareddau grŵp ac unigol fel bo'n briodol;
- defnydd effeithiol o ganmoliaeth a chlod a chreu awyrgylch waith bwrpasol;
- sicrhau cyfle cyfartal trwy wahaniaethu effeithiol a datblygu medrau dwyieithog y disgyblion yn fwriadus;

89. Mae ansawdd yr asesu a'r cofnodi'n dda gyda nodweddion rhagorol.
90. Mae athrawon yn gweithredu trefn deg, gyson a chywir o asesu cyflawniadau'r disgyblion yn holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Maent yn cwrdd yn llawn â gofynion statudol asesu.
91. Mae'r drefn o arsylwi a chofnodi cynnydd a chyflawniad plant unigol yn y Cyfnod Sylfaen yn nodwedd ragorol.
92. Mae'r ysgol yn gweithredu'r asesiad sylfaen ac yn cofnodi asesiadau diwedd cyfnod allweddol yn effeithiol. Dadansoddir y data a gesglir er mwyn targedu disgyblion unigol o fewn pob dosbarth ac i addasu'r ddarpariaeth pan yn briodol.
93. Sicrheir cysondeb yn yr asesiadau trwy'r drefn effeithiol iawn o safoni yn fewnol ar sail gwaith wedi ei lefelu o fewn portffolios meysydd, ac yna trwy gyd-safoni ag ysgolion eraill mewn cydweithrediad ag adrannau perthnasol o'r ysgol ion uwchradd leol.
94. Rhennir meini prawf llwyddiant a meithrinir gallu'r disgyblion yn gyson i asesu eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu cyfoedion. Trwy hyn daw'r disgyblion i ddeall yr hyn sydd angen ei wneud i wella cyflawniad. Mae hyn yn nodwedd ragorol.
95. Er bod gwaith ysgrifenedig y disgyblion yn cael ei farcio yn rheolaidd a sylwadau adeiladol yn cael eu cynnig ar rai ymdrechion, nid yw'r arfer yma yn gyson o fewn cyfnod allweddol 2.
96. Caiff rhieni gyfle yn dymhorol i drafod cynnydd eu plant ac mae ansawdd yr adroddiadau blynyddol i rieni'n dda iawn. Gwerthfawrogir sylwadau'r pennaeth gan y rhieni.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

97. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r farn a fynegwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
98. Mae ansawdd ac amrywiaeth y profiadau dysgu a ddarperir i'r disgyblion ar draws yr ysgol yn rhagorol. Cynigir cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cwrdd â'r holl ofynion statudol.
99. Mae'r cynlluniau diwygiedig ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 yn cynnig canllawiau clir i'r athrawon. O fewn y cynllunio tymhorol cynllunnir yn fwriadus i ddarparu cyfleoedd cyfartal a manylir ar weithgareddau penodol, a'r modd y plethir y medrau allweddol a sylfaenol i'r ddarpariaeth. Er bod elfen ragorol i'r ddarpariaeth yma yn gyffredinol, da yw'r cyfleoedd yng nghyfnod allweddol 2 ar gyfer cyflwyno medrau TGCh ar draws y cwricwlwm. Anwastad yw'r cyfleoedd ar gyfer datblygu medrau mathemateg ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2.
100. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad hyfedredd dwyieithog y disgyblion yn un o brif ragoriaethau'r ysgol. Rhoddir pwyslais arbennig ar y Cwricwlwm Cymreig ac ar ddiwylliant Cymru ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol.
101. Cyfoethogir yn rhagorol y profiadau a gyflwynir i'r disgyblion trwy wahodd ymwelwyr a'r amrywiol ymweliadau addysgol a phrofiadau tu allan i ffiniau'r ysgol. Gwneir defnydd arbennig o adnoddau lleol gan gynnwys y Llyfrgell Genedlaethol, Y Brifysgol, Canolfan Hamdden, Canolfan y Celfyddydau a'r ysgol uwchradd leol. Bu'r ysgol ar nifer o ymweliadau addysgiadol gan gynnwys Castell Henllys, Yr Ardd Fotaneg Genedlaethol, fferm, Stadiwm y Mileniwm, Canolfan y Mileniwm, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Gwarchodfa Natur Ynys Hir.
102. Cynigir arlwy o weithgareddau yn ystod yr awr ginio ac ar ôl ysgol gan gynnwys Clwb yr Urdd.
103. Mae'r cyfnodau addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol ac yn cynnig cyfleoedd rhagorol i ddisgyblion fyfyrion ar elfennau ysbrydol a phersonol.
104. Hyrwyddir datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol iawn trwy drefn gydlynus sy'n ymgorffori elfennau megis addysg bersonol a chymdeithasol, cyfnodau amser cylch a chyfraniad rhagorol y Cyngor Ysgol wrth ddylanwadu ar weithrediad prif amcanion yr ysgol.
105. Mae partneriaeth dda iawn yn bodoli gyda'r rhieni. Mae cytundeb ysgol a chartref yn bodoli a chyhoeddir prosectws yr ysgol yn flynyddol sy'n cwrdd â'r gofynion statudol. Anfonir gwybodaeth am weithgareddau i'r rhieni'n rheolaidd drwy wefan yr ysgol a thrwy lythyr. Mynegwyd bodlonrwydd a gwerthfawrogiad y rhieni yn y bartneriaeth yma yn eu hymatebion i'r holiadur cyn-arolygiad ac yn eu hymatebion ar lafar yn y cyfarfod ar gyfer rhieni.

106. Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn weithgar a brwdfrydig iawn ac yn llwyddo i gynnal amrywiol weithgareddau i godi arian tuag at brynu adnoddau ychwanegol i'r ysgol ac i drefnu achlysuron cymdeithasol gyda naws deuluol iddynt.
107. Mae gan yr ysgol gysylltiadau niferus gyda'r gymuned leol sy'n cael dylanwad cadarnhaol iawn ar ystod y profiadau a gynigir i'r disgyblion trwy gyfoethogi'r ddarpariaeth gwricwlaidd. Mae cyswllt agos gyda'r eglwysi, y Llyfrgell Genedlaethol a Chanolfan y Celfyddydau.
108. Meithrinir cysylltiadau da iawn ag ysgolion eraill yn lleol trwy gyd-weithio ar agweddau cwricwlaidd, gydag ysgol mewn ardal arall o Gymru a chydag ysgol yn Norwy. Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo'r disgyblion i'r ddwy ysgol uwchradd leol yn dda iawn.
109. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dinasyddiaeth fyd eang yn rhagorol. Mae'r profiadau eang a dderbynnir wrth drefnu a dathlu'r diwrnod rhyngwladol blynyddol yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o bobl ac amodau byw gwahanol sy'n bodoli ar draws y byd. Mae'r disgyblion yn cyfrannu tuag at nifer dda o elusennau ac achosion da yn flynyddol.
110. Datblygir ymwybyddiaeth o fyd gwaith yr ardal yn dda a manteisir ar gysylltiadau ymarferol gyda busnesau a gwasanaethau cyhoeddus lleol. Hyrwyddir medrau mentergarwch yn dda trwy roddi cyfrifoldeb i'r disgyblion am stondinau ffrwythau, hyrwyddo stondin Masnach Deg a chreu cardiau cyfarch i'w gwerthu ar draws yr ysgol.
111. Gwobrwywyd ymdrechion rhagorol yr ysgol i hyrwyddo cynaliadwyedd trwy ddyfarnu'r Fficer Werdd iddi am yr eildro ym Mehefin 2008. Mae pob dosbarth yn datblygu o leiaf un o agweddau 'ysgol eco' yn flynyddol.
112. Mae amrediad sylweddol o weithgareddau'r ysgol yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol ac yn hyrwyddo addysg gydol oes yn effeithiol iawn.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

113. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r farn a roddwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
114. Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i'r disgyblion yn rhagorol. Mae'r disgyblion yn hapus iawn yn yr ysgol ac mae perthynas dda iawn rhyngddynt a'r staff addysgu a'r staff atodol. Mae'r ysgol yn cynllunio ac yn rheoli trefniadau a gwasanaethau cefnogi mewn ethos gofalgar a chynhwysol lle mae'r disgyblion yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan yr oedolion oll.
115. Mae'r ysgol yn cydweithio mewn partneriaeth ragorol gyda'r rhieni ac yn ystyried eu barn bob amser. Mae gan y rhieni hyder amlwg yn y gofal a'r cyfarwyddyd a gaiff eu plant ac yn y ffordd y mae'r ysgol yn ymateb yn syth ac yn llawn i unrhyw faterion a godir ganddynt.
116. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer galluogi'r plant ieuengaf i ymgartrefu'n gyflym. Teimlant yn ddiogel ac yn gartrefol yn yr ysgol a chânt gefnogaeth dda gan yr holl staff. Hyrwyddir y trefniadau ymhellach gan y bartneriaeth glos rhwng y Cylch Meithrin a'r ysgol.
117. Mae gan yr ysgol bolisiâu cadarn a gweithdrefnau clir i sicrhau lles, iechyd a diogelwch disgyblion ac fe ymatebir i unrhyw bryder yn ddiymdroi. Mae'r pennaeth ac aelod dynodedig o'r llywodraethwyr yn ymgymryd â chyfrifoldeb am ddiogelu plant yn gydwybodol ac mae'r holl staff yn hyddysg yn y trefniadau.
118. Cwblheir asesiadau risg ac mae gan bob aelod staff gymhwyster cymorth cyntaf. Mae'r ysgol yn trefnu goruchwyliaeth ofalus yn ystod cyfnodau egwyl ac wrth i'r disgyblion gyrraedd a gadael yr ysgol.
119. Mae'r ysgol yn sicrhau datblygiad iachus yn dda. Maent wedi cwblhau Cam 2 o'r cynllun Ysgolion Iach.
120. Caiff pob disgybl gyfle i leisio'i farn ac i fynegi pryderon drwy'r cynghorau dosbarth a thrwy ddefnyddio'r 'bocs becs' sydd ym mhob dosbarth. Mae'r "Inbocs Becs" yn caniatáu i ddisgyblion anfon e-bost at y pennaeth os oes ganddynt unrhyw bryder. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn ymateb yn rhagorol i'r cyfle a gânt i drafod, lleisio barn a chynnig awgrymiadau ynghylch materion sy'n ymwneud â lles disgyblion.
121. Cofnodir presenoldeb yn electronig ym mhob dosbarth. Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb a phrydlondeb yn ofalus iawn ac yn ymateb yn syth i unrhyw bryder. Mae hyn yn nodwedd ragorol o waith yr ysgol.

122. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn rhagorol ac yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Côd Ymarfer. Mae gan yr ysgol drefniadau manwl ac effeithiol ar gyfer darganfod yn fuan y disgyblion sydd ag ADY. Mae'r cydgysylltydd yn cadw cofnodion trefnus a chyfredol o'r gwaith ac mae'n adolygu'r ddarpariaeth yn rheolaidd. Cyflawna'r aelod o'r corff llywodraethu sydd â chyfrifoldeb am ADY ei dyletswyddau yn gydwybodol.
123. Darperir cynhaliaeth effeithiol iawn, gan sicrhau bod y disgyblion yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm ac i holl weithgareddau eraill yr ysgol. Mae'r cynlluniau addysg unigol (CAU) sy'n cael eu darparu ar gyfer disgyblion ag AAA yn cynnwys targedau dysgu penodol sy'n cyfateb yn dda iawn i'w hanghenion. Adolygir y CAU yn rheolaidd ac fe'u trafodir gyda'r rhieni'n gyson.
124. Nodwedd ragorol yw darpariaeth yr Ystafell Iaith. Yn dilyn cydweithio agos rhwng yr ysgol, yr Awdurdod Addysg Lleol, a'r Gwasanaeth Iaith a Lleferydd, targedir nifer o ddisgyblion gydag anawsterau iaith a lleferydd. Mae aelod cyswllt o staff yr ysgol yn cydlynu'r trefniadau ymarferol oddi mewn i'r ysgol yn effeithiol iawn.
125. Mae gan yr ysgol bolisi ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus ac maent wedi adnabod disgyblion unigol, sydd yn derbyn amrywiaeth o gefnogaeth ychwanegol mewn meysydd fel cerdd, chwaraeon, celf ac ysgrifennu.
126. Rhoddir sylw rhagorol i sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl yn yr ysgol. Mae'r pwyslais a roddir ar barch a goddefgarwch ar draws y cwricwlwm, yn y gwasanaethau ac mewn gweithgareddau all-gwricwlaidd yn hyrwyddo cydraddoldeb rhyw, chydberthynas dda rhwng hiliau a pharchu amrywiaeth.
127. Mae gan yr ysgol fesurau rhagorol i ymateb i unrhyw ymddygiad gormesol, ac fe bwysleisir parch at eraill yn gyson. Cofnodir unrhyw ddigwyddiad o ymddygiad gormesol a bydd yr ysgol yn ymateb yn syth. O fewn yr wythnos bydd yr ysgol yn cysylltu gyda'r teulu i sicrhau bod y mater wedi ei ddatrys.
128. Mae gan yr ysgol gynllun cydraddoldeb anabledd a chynllun gweithredu addas. Mae wedi darparu cefnogaeth mewn modd rhagorol i sicrhau cyfle cyfartal i ddisgyblion anabl.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

129. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r farn a fynegwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
130. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir, a thrwy bartneriaeth gadarn gyda'r tîm rheoli a'r llywodraethwyr, llwyddir i osod cyfeiriad strategol pwrpasol i ddatblygiad yr ysgol. Mae hyn oll yn creu ymdeimlad o weithio fel un tîm sydd yn anelu at ddatblygiad cyflawn yr holl ddisgyblion.
131. Mae gan yr ysgol bolisiâu, nodau ac amcanion clir sy'n cael eu gweithredu'n llawn ym mhob agwedd o waith yr ysgol. Cyfeirir yn ddyddiol at 'Gymreictod, Parchu Eraill a Gwneud Ein Gorau Glas' ac adlewyrchir hyn o fewn gwaith ac ymroddiad rhagorol y disgyblion.
132. Rhennir cyfrifoldebau penodol ymysg yr athrawon a'r cymorthyddion a gwnânt gyfraniad arwyddocaol i ddatblygiad yr ysgol a chefnogant ei gilydd yn effeithiol iawn.
133. Mae'r ysgol yn rhoddi ystyriaeth dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r cynllunio a'r drefn o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm 2008 yn weithredol. Hyrwyddir cynaliadwyedd trwy ymdrechion y Pwyllgor Eco sydd wedi sicrhau'r Faner Werdd am yr eildro. Derbyniwyd Marc Safon yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol am y trydydd tro. Rhoddir ystyriaeth i ffitrwydd ac iechyd trwy weithredu ar Gam 2 Ysgolion Iach.
134. Mae'r ysgol yn gosod targedau i ddisgyblion yn flynyddol yn y pynciau craidd a seilir ar ddadansoddiad o waith dosbarth.
135. Darparwyd swydd ddisgrifiadau manwl ar gyfer pob aelod o staff ac mae trefniadau effeithiol iawn gan yr ysgol i reoli eu perfformiad. Gweithredir rhaglenni anwytho ar gyfer yr athrawon sydd newydd gymhwyso.
136. Mae'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn arbennig o dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o'u cyfrifoldebau a chydweithiant yn agos gyda'r pennaeth i osod cyfeiriad strategol priodol i ddatblygiad yr ysgol. Mae hyn yn nodwedd ragorol.
137. Mae holl aelodau'r corff llywodraethol yn cael cyfle i ymweld â dosbarthiadau fel rhan o drefn ragorol yr ysgol o fonitro ac o sicrhau fod y llywodraethwyr yn gallu derbyn tystiolaeth uniongyrchol am gyflawniad disgyblion.
138. Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn llwyr. Mae Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i'r rhieni a phrosbectws yr ysgol yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

139. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd a barn yr ysgol yn yr adroddiad hunan arfarnu.
140. Ers rhai blynyddoedd, mae'r ysgol wedi sefydlu, datblygu a gwella prosesau hunan arfarnu sydd bellach yn rhan allweddol o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r trefniadau'n gynhwysfawr ac yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol o nifer o ffynonellau. Mae gan uwch reolwyr yr ysgol wybodaeth drylwyr am berfformiad yr ysgol a gwnânt ddefnydd effeithiol a manwl o'r wybodaeth i gynllunio gwelliannau pellach.
141. Mae'r pennaeth a'r athrawon yn cyfrannu'n llawn at y broses hunan arfarnu trwy ddadansoddi gwaith disgyblion i adnabod cryfderau ac agweddau sydd angen eu datblygu. Byddant yn arsylwi ar wersi er mwyn arfarnu'r addysgu a'r dysgu. Maent yn rhannu arfer dda trwy ddadansoddi cynlluniau gwaith a darpariaeth y meysydd cwricwlaidd er mwyn adnabod y ffordd ymlaen. Maent yn coladu, dadansoddi a chrynhoi'r dystiolaeth monitro ac yn cynhyrchu adroddiadau i'w trafod ac i'w cyflwyno i'r llywodraethwyr. Mae'r goreuon o'r adroddiadau hyn yn fanwl a threiddgar ond mae lleiafrif yn rhy ddisgrifiadol ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigonol ar ansawdd cyflawniad a pherfformiad y disgyblion.
142. Caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i fynegi barn trwy holiaduron pwrpasol. Mae cyfraniad y Cyngor Ysgol i weithdrefnau hunan arfarnu'r ysgol yn nodwedd ragorol. Maent yn darparu adroddiadau ar sut mae disgyblion yn dysgu, yn trafod a gwneud penderfyniadau am faterion sy'n cael effaith arnynt yn yr ysgol ac yn cyflwyno eu canfyddiadau i'r corff llywodraethol. Caiff barn rhieni unigol ei ganfod trwy holiaduron.
143. Mae'r adroddiad hunan arfarnu a gynhyrchwyd gan yr ysgol yn glir ac yn gynhwysfawr ac yn cynnig barnau gwrthrychol a gonest ar y saith cwestiwn allweddol. Mae'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol ym mhob un o'r saith cwestiwn allweddol.
144. Gwna'r arweinwyr a'r rheolwyr ddefnydd rhagorol o'r wybodaeth a gesglir wrth hunan arfarnu er mwyn gwella'r ddarpariaeth addysgol a chodi safonau. Mae'r Cynllun Datblygu Ysgol yn nodi prif flaenoriaethau'r ysgol, yn dangos camau gweithredu sy'n debygol o arwain at welliant, ac yn rhoi manylion am yr adnoddau ariannol sydd ar gael i gefnogi'r blaenoriaethau. Mae'r cofnodion ar gyfer monitro cynnydd, gan gynnwys sylwadau gan aelodau staff unigol a llywodraethwyr yn nodwedd effeithiol iawn o'r Cynllun.
145. Gwnaed cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r materion allweddol a adnabuwyd yn yr arolygiad yn 2003. Mae canlyniadau diwedd cyfnodau allweddol, ynghyd â chanfyddiadau arsylwi gwersi y tro hwn yn dangos bod y safonau uchel yn cael eu cynnal. Mae safonau medrau TGCh wedi codi i fod yn dda y tro hwn. Mae'r wybodaeth asesu yn cael dylanwad cadarnhaol ar y ddarpariaeth ac mae trefn ar gyfer hunan asesu yn datblygu'n dda. Mae cytundebau cartref-ysgol yn eu lle.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

146. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r farn a roddwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
147. Mae gan yr athrawon ystod eang o gymwysterau, arbenigeddau a phrofiad sy'n eu galluogi i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm yr ysgol.
148. Mae'r cymorthyddion cyfnod sylfaen a'r cymorthyddion cynnal dysgu yn gweithio'n agos a chydwybodol gyda'r athrawon. Maent yn cyfrannu'n rhagorol i'r addysgu. Mae aelod o'r tîm rheoli yn eu harwain yn effeithiol iawn.
149. Mae'r cyflenwad adnoddau dysgu yn dda ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Trwy gymorth ariannol y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon llwyddwyd i gael bwrdd gwyn rhyngweithiol ar gyfer pob dosbarth o blwyddyn 1 ymlaen. Mae'r Gymdeithas hefyd yn cyfrannu'n sylweddol tuag at gostau teithiau'r ysgol.
150. Yn flynyddol, mae busnesau lleol yn cefnogi'r ysgol drwy noddi cyngherddau cyhoeddus yr ysgol. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae cwmni adeiladu wedi cyfrannu'n sylweddol tuag at ddatblygu gardd i'r ysgol.
151. Mae'r adnoddau i gyd mewn cyflwr da iawn, yn hygyrch i athrawon a disgyblion ar draws yr ysgol ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac effeithlon. Mae'r tîm rheoli yn sicrhau bod adnoddau yn cael eu pwrcasu am y pris gorau a bod cydweithio ar draws yr ysgol wrth archebu.
152. Mae'r adeiladau a thir yr ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda iawn ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol.
153. Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r neuadd yn ddigonol ar gyfer y nifer o ddisgyblion ac mae'r arddangosfeydd lliwgar a graenus o amgylch yr ysgol yn cyfrannu'n dda at greu amgylchedd deniadol. Fodd bynnag mae trafndiaeth yn drwm ar y ffordd wrth yr ysgol pan fo disgyblion yn cyrraedd ar ddechrau'r diwrnod ysgol ac wrth iddynt adael ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Mae'r Llywodraethwyr yn trafod y mater yn rheolaidd ac mae'r Cyngor Sir yn ymchwilio i'r mater.
154. Sefydlwyd trefniadau effeithiol er mwyn sicrhau amser i'r athrawon ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Manteisia'r staff addysgu a'r staff cefnogi ar gyfleoedd cyson i ddiweddarau eu medrau drwy dderbyn amrywiaeth o hyfforddiant sy'n cyd-fynd yn dda iawn â'u hanghenion datblygiad proffesiynol unigol ac â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer datblygiad. Mae'r trefniadau hyn yn nodweddion rhagorol sy'n cael dylanwad cadarnhaol ar safonau.
155. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn cydweithio'n rhagorol er mwyn sicrhau bod cyllideb yr ysgol yn cael ei ddefnyddio i roi'r addysg orau bosibl i'r disgyblion. Gwnânt ddefnydd rhagorol o gymorth ariannol ychwanegol gan y Gymdeithas Rheini ac Athrawon, cwmnïau a mudiadau lleol. Mae gan y pennaeth a'r llywodraethwyr ddealltwriaeth drylwyr o anghenion a blaenoriaethau cyllidol y dyfodol. Maent yn trafod yn fanwl nifer o opsiynau wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer y CDY ac yn cynllunio a monitro'r gwariant yn ofalus. Mae'r ysgol yn cynnig gwerth rhagorol am arian.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Dymuna'r llywodraethwyr, y staff, y rhieni a'r disgyblion ddiolch i'r tîm arolygu am eu hagwedd broffesiynol a chyfeillgar yn ystod y broses o arolygu'r ysgol ym mis Chwefror 2009.

Rydym fel ysgol yn falch fod barn yr arolygwyr yn cytuno ac yn cadarnhau barn hunan arfarniad yr ysgol ym mhob un o'r saith Cwestiwn Allweddol. Teimlwn fod y broses arolygu wedi bod yn un drylwyr a chadarnhaol sydd wedi adnabod cryfderau a gwerthoedd yr ysgol.

Edrychwn ymlaen at barhau i gynnal y safonau rhagorol sy'n bodoli ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol ac i ddatblygu cynllun gweithredu i roi sylw i'r agweddau sydd angen sylw pellach.

Hyderwn y byddwn yn parhau i gydweithio fel staff, llywodraethwyr a rhieni i feithrin disgyblion a fydd yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn tuag at Gymreictod, yn parchu ei gilydd ac yn gwneud eu gorau glas ym mhob agwedd o fywyd a gwaith Ysgol Gymraeg Aberystwyth.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gymraeg Aberystwyth
Math o ysgol	Cynradd
Ystod oedran y disgyblion	3½ - 11
Cyfeiriad yr ysgol	Plascrug Avenue Aberystwyth
Cod post	SY23 1HL
Rhif ffôn	01970 617613

Pennaeth	Mr Robert Clive Williams
Dyddiad penodi	Ebrill 2001
Cadeirydd y llywodraethwyr / Awdurdod priodol	Mr Clem Thomas
Arolygydd cofrestredig	Mr Gwilym Trebor Roberts
Dyddiadau'r arolygiad	9 – 11 Chwefror, 2009

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	33.5	50	38	48	42	48	39	41	335.5

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	16	5	18.6

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	16 :1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	5.6 :1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	-
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	21.9
Cymhareb athro (call): dosbarth	1.16 :1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Gwanwyn 08	90.4	94.4	94.7
Haf 08	93.4	93.2	96.1
Hydref 08	92.6	91.3	96.3

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	4.6
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

Atodiad 3

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd cyfnod allweddol 1:

Canlyniadau Aseidiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008			Nifer y disgyblion yn B2				42
Canran y disgyblion ar bob lefel							
			D	W	1	2	3
Cymraeg	Aseiad athro	Ysgol	0	2	0	67	31
		Cenedlaethol	0	2	10	63	26
Cymraeg: llafaredd	Aseiad athro	Ysgol	0	2	5	64	29
		Cenedlaethol	0	2	10	62	26
Cymraeg: darllen	Aseiad athro	Ysgol	0	2	2	62	33
		Cenedlaethol	0	2	15	59	23
Cymraeg: ysgrifennu	Aseiad athro	Ysgol	0	2	12	69	17
		Cenedlaethol	0	3	19	66	12
Mathemateg	Aseiad athro	Ysgol	0	0	2	52	45
		Cenedlaethol	0	2	11	65	22
Gwyddoniaeth	Aseiad athro	Ysgol	0	0	2	57	40
		Cenedlaethol	0	1	9	66	24

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl aseiad athro			
Yn yr ysgol	98	Yng Nghymru	80

D Disgyblion sydd wedi'u datgymhwyso o'r trefniadau statudol
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
Diwedd cyfnod allweddol 2:

Canlyniadau Aseidiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008							Nifer y disgyblion yn B6			45	
Canran y disgyblion ar bob lefel											
			D	A	F	W	1	2	3	4	5
Saesneg	Aseiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	7	63	31
		Cenedlaethol	0	0	0	0	1	4	16	50	29
Cymraeg	Aseiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	9	58	33
		Cenedlaethol	0	0	1	1	1	5	19	49	24
Mathemateg	Aseiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	2	7	51	40
		Cenedlaethol	0	0	0	0	1	3	15	50	30
Gwyddoniaeth	Aseiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	4	62	33
		Cenedlaethol	0	0	0	0	0	2	12	53	32

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf)			
yn ôl aseiad athro		yn ôl prawf	
Yn yr ysgol	87	Yng Nghymru	74

- D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd chwech arolygydd, gan gynnwys enwebai'r ysgol, cyfwerth ac un diwrnod ar bymtheg o ddiwrnodiau arolygu yn yr ysgol a chyfarfod fel tîm cyn yr arolygiad.

Ymwelodd yr arolygwyr hyn â:

- 31 gwerau neu rannau o wersi;
- sesiynau cofrestru, gwasanaethau ac addoli ar y cyd; ac
- ystod o weithgareddau allgyrsiol.

Cafodd aelodau o'r tîm gyfarfodydd â:

- staff, llywodraethwyr a rhieni cyn yr arolygiad;
- uwch reolwyr, athrawon a staff cymorth; a
- chyngor yr ysgol.

Roedd y tîm hefyd wedi ystyried:

- adroddiad hunanarfarnu'r ysgol;
- 55 ymateb i'r holiadur i rieni;
- dogfennau a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad;
- amrediad eang o waith blaenorol a phresennol disgyblion; a
- samplau o adroddiadau disgyblion.

Yn dilyn yr arolygiad, cynhaliodd y tîm gyfarfodydd gyda'r staff a'r llywodraethwyr.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Gwilym Trebor Roberts Arolygydd Cofrestredig	Crynodeb Cwestiwn Allweddol 1 a 6 Argymhellion
O. Glyn Roberts Arolygydd Tîm	Cwestiwn Allweddol 2, 3 a 5
D. Gareth Jones Arolygydd Tîm	Cwestiwn Allweddol 4 a 7
Deris Williams Arolygydd Lleyg	Cyfrannu at gwestiynau allweddol 1, 3, 4 a 7
Mr Rhodri R. Jones	Asesydd Cymheiriad
Mr Robert Clive Williams	Enwebai'r ysgol

Contractwr: Cwmni Cynnal
Uned Dechnoleg
Stryd y Bont
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7HL

Cydnabyddiaeth

Dymuna'r arolygwyr fynegi eu diolch i lywodraethwyr, pennaeth, staff, disgyblion a rhieni'r ysgol am eu cydweithrediad parod yn ystod yr arolygiad.